# TAFLEN BENDERFYNIAD AELOD UNIGOL O GABINET CYNGOR GWYNEDD

| | |
|---|---|
| **DYDDIAD Y PENDERFYNIAD** | 10 Rhagfyr 2021 |
| **DYDDIAD CYHOEDDI'R PENDERFYNIAD** | 15 Rhagfyr 2021 |
| **DYDDIAD Y BYDD Y PENDERFYNIAD YN DOD I RYM** ac y gweithredir arno, oni bai bo'r penderfyniad yn cael ei alw i mewn yn unol ag adran 7.25.1 o Gyfansoddiad Cyngor Gwynedd. | 22 Rhagfyr 2021 |

**ENW A THEITL YR AELOD CABINET**

Y Cynghorydd Gareth Thomas
Aelod Cabinet Datblygu'r Economi

**PWNC – Cyflwyno ceisiadau a derbyn cynigion i gronfeydd Trawsnewid Trefi, Llywodraeth Cymru.**

**PENDERFYNIAD**

a) Cadarnhau'r trefniadau o fewn y Cyngor ar gyfer targedu cronfeydd Trawsnewid Trefi, Llywodraeth Cymru ar gyfer datblygu a gweithredu amrediad o brosiectau adfywio canol trefi.
b) Nodi'r angen fod Pennaeth Cyllid ar y cyd a Phennaeth Economi a Chymuned i arwyddo ceisiadau a llythyrau cynnig ar gyfer y Gronfa.
c) Fod dogfen Asesiad Risg yn cael ei diweddaru yn rheolaidd, gan adrodd i'r Cabinet yn ôl yr angen yn unol a Rheolau Gweithdrefn Ariannol y Cyngor.

**RHESWM DROS YR ANGEN AM Y PENDERFYNIAD**

Gweler yr Adroddiad Swyddog atodedig.

**DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL AC UNRHYW OLLYNGIADAU PERTHNASOL A GANIATWYD GAN Y PWYLLGOR SAFONAU**

Dim

**UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD**

Ymgynghorwyd â –
Swyddogion Statudol Cyngor Gwynedd

Adroddir ar ganlyniadau'r ymgynghoriadau yn yr adroddiad atodedig.

**TAFLEN BENDERFYNIAD AELOD UNIGOL O GABINET CYNGOR GWYNEDD – ADRODDIAD SWYDDOG**

| | |
|---|---|
| Enw a theitl yr Aelod/au Cabinet : | Y Cyng. Gareth Thomas<br>Aelod Cabinet Datblygu'r Economi |
| Enw a theitl Awdur yr Adroddiad : | Esyllt Rhys Jones<br>Rheolwr Rhaglenni Adfywio |
| Dyddiad y Cymerwyd y Penderfyniad: | 10 Rhagfyr 2021 |
| Llofnod yr Aelod/au Cabinet : |  |

**Pwnc :** Cyflwyno ceisiadau a derbyn cynigion i gronfeydd Trawsnewid Trefi, Llywodraeth Cymru.

**Argymhelliad ar gyfer y Penderfyniad :**

d) Cadarnhau'r trefniadau o fewn y Cyngor ar gyfer targedu cronfeydd Trawsnewid Trefi, Llywodraeth Cymru ar gyfer datblygu a gweithredu amrediad o brosiectau adfywio canol trefi
e) Nodi'r angen fod Pennaeth Cyllid ar y cyd a Phennaeth Economi a Chymuned i arwyddo ceisiadau a llythyrau cynnig ar gyfer y Gronfa
f) Fod dogfen Asesiad Risg yn cael ei diweddaru yn rheolaidd, gan adrodd i'r Cabinet yn ôl yr angen yn unol a Rheolau Gweithdrefn Ariannol y Cyngor

**Rheswm dros yr angen am y Penderfyniad :**

Yn ystod Gwanwyr 2021, bu i'r Adran Economi a Chymuned dderbyn gwybodaeth gan Lywodraeth Cymru bod cyllidebau ar gael ar ffurf grantiau i adfywio canol trefi. Eglurwyd fod yr arian yn cyfranu tuag at yr egwyddor Canol Trefi yn Gyntaf ac yn rhan o Raglen Trawsnewid Trefi. Roedd sawl ffrwd gwaith yn gysylltiedig a Trawsnewid Trefi, ond yn benodol, dwy gronfa grant gyfalaf, Cronfa Strategol a Chronfa Creu Lleoedd.

Roedd yr amserlen i gyflwyno ceisiadau yn dynn gan fod angen gwario'r cyllidebau yn y flwyddyn ariannol 2021-22 ac felly cyflwynwyd ceisiadau yn ddarostyngedig i dderbyn taflen benderfyniad.

**Rhesymeg a chyfiawnhad dros gyrraedd y Penderfyniad :**

Yn ddiweddar lansiodd Llywodraeth Cymru raglen Trawsnewid Trefi. Mae'n un o becyn o gronfeydd sydd wedi eu lansio ganddynt yn ac mae dwy gronfa gyfalaf sydd ble arian sydd ar gael angen ei wario yn y flwyddyn ariannol bresennol:

- Cronfa Strategol – cynlluniau dros £250,000 i'w gweithredu yn nhrefi blaenoriaeth (Bangor

a Caernarfon yn achos Gwynedd);

- Cronfa Creu Lleoedd – cynlluniau gyda chyfraniad o lai na £250k i holl drefi y Sir ble mae strategaeth neu gynllun yn ei le sydd yn adnabod yr angen am y cynllun.

Nod y gronfa yw buddsoddi mewn cynlluniau cyfalaf sydd yn cyfranu tuag at adfywio canol trefi. Ceir pwyslais arbennig at ddod a bwrlwm yn ôl i ganol trefi drwy wella ei ddelwedd ac edrych yn ehangach ar ddefnyddiau llai traddodiadol i'r stryd fawr megis preswyl, celfyddydau, iechyd a hamdden.

Mae disgwyliad i'r cynlluniau a gaiff eu cyflwyno fod yn aeddfed gan fod angen sicrhau gwariant cyn 31 Mawrth 2022.

<u>Cynllun Blaenoriaeth Cyngor Gwynedd</u>
Mae Hybu Canol Trefi wedi ei adnabod fel ffrwd gwaith o fewn Cynllun Strategol y Cyngor. Mae amrediad o ymyraethau ac ymdrechion trawsadrannol yn cyfrannu tuag at y ffrwd gwaith hwn. Mae'r ffrwd gwaith yn ychwanegu gwerth at flaenoriaethau Llywodraeth Cymru a'r Rhaglen Adfywio Genedlaethol.

Mae cyfle yma i dargedu grantiau cyfalaf ar gyfer datblygu a gweithredu cynlluniau adfywio canol trefi ar draws y Sir. Mae'r cyfleon yn y flwyddyn ariannol yn gyfyngedig i gynlluniau aeddfed sydd a'r gallu i gyflawni'r gwariant cyn diwedd Mawrth 2022.

Rhagwelir y bydd Rhaglen Adfywio tymor hirach yn cael ei lansio Ebrill 2022 fydd yn rhoi cyfleon pellach i gynlluniau llai aeddfed i'w datblygu a'u gweithredu er mwyn cyfrannu tuag at y gwaith adfywio.

<u>Trefniadau rheoli a gweithredu</u>
Mi nodir uchod fod dwy ffynhonnell gyfalaf yn cynnig cyfleoedd y flwyddyn ariannol yma a mae trefniadau gwahanol i weinyddiaeth y ddwy:

- Cronfa Strategol – cynlluniau dros £250,000 a gaiff eu gweinyddu gan Lywodraeth Cymru drwy Banel Cenedlaethol a chymeradwyaeth gweinidogol;
- Cronfa Creu Lleoedd – cynlluniau gyda chyfraniad hyd at £250,000 gaiff eu gweinyddu gan Gyngor Wrecsam ar ran holl awdurdodau Rhanbarth y Gogledd ag a gaiff eu hystyried a'u asesu yn llawn gan Grŵp Swyddogion Adfywio Gogledd Cymru.

Mae'r drefn hon yn arferol wrth ymgeisio am arian i weithredu cynlluniau'r awdurdodau lleol yn uniongyrchol. Fodd bynnag, mae'r rhaglen yn agored i geisiadau trydydd parti, ac mae Llywodraeth Cymru wedi cadarnhau fod disgwyl i weinyddiaeth unrhyw gais gan drydydd parti gael eu gweinyddu drwy'r awdurdodau lleol perthnasol. Golyga hyn mai'r awdurdod perthnasol fydd yn gyfrifol am wirio'r cais a'r ymgeisydd, cydymffurfio gyda'r telerau ac amodau ynghyd a'r trefniadau ariannol a hawliadau.

Gan fod aelodaeth y Panel Benthyciadau yn cynnwys Aelodau Cabinet a Penaethiaid Adran y meysydd gwaith perthnasol ystyrir fod y Panel yn cynnig ei hun i ymgymryd â'r rôl o asesu ceisiadau Cyngor Gwynedd a thrydydd parti o Wynedd cyn eu cyflwyno ymlaen i'r cronfeydd priodol. Hynny yw, fod y Panel yn adolygu ceisiadau a herio eu cynnwys, gyda dim ond y cynlluniau hynny mae'r Panel yn fodlon eu cefnogi yn cael eu cyflwyno i Gyngor Wrecsam.

Asesiad Risg
Fel rhan o'r broses ymgeisio, mae Asesiadau Risg wedi eu paratoi ar gyfer pob un o'r cynlluniau uchod.

Yn ychwanegol, mae asesiad risg wedi ei pharatoi sydd yn adlewyrchu'r risgiau sydd yn gysylltiedig a'r broses, cyfrifoldebau ar y cyngor ynghyd a thelerau ac amodau y gronfa. Mae'r isod y crynhoi y risgiau sydd wedi eu hadnabod i'r Cyngor.

- Methu cwblhau'r gwariant yn y flwyddyn ariannol bresennol sydd yn un o ofynion y Gronfa;
- Diffyg cydariannu ar gyfer y Cynllun;
- Anawsterau yn ymwneud a materion tir;
- Anawsterau mewn derbyn y caniatadau statudol angenrheidiol;
- Problemau yn codi yn sgil cytundebau gyda trydydd parti i wireddu y cynllun.

**Unrhyw ymgynghoriadau a gynhaliwyd cyn gwneud y Penderfyniad :**

Ymgynghorwyd a:

Adrannau Cyngor Gwynedd

Cynghorau Tref / Dinas

Grwpiau Busnes ac Ardaloedd Gwella Busnes

Partneriaid o'r trydydd sector

Prif Swyddog Cyllid –
Rwyf yn fodlon fod y trefniadau a amlinellir yn y Penderfyniad a Geisir yn addas i liniaru'r risgiau i'r Cyngor sydd ynghlwm â'r cynlluniau dan sylw. Bydd yr Adran Gyllid yn cyd-weithio gyda'r Adran Economi a Chymuned wrth asesu a monitro'r ceisiadau yn ôl yr angen.

Swyddog Monitro –
Rwy'n fodlon fod yr hyn a argymhellir ar gyfer y broses yn synhwyrol a chymesurol . Nodir yn benodol fod trefniadau asesiadau risg yn rhoi ròl wrth gefn i'r Cabinet

Aelod/au Lleol -

| 1 | 2 | 3 | 4 | 5 | 6 | 7 | 8 | 9 | 10 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Risg Naddo | Risg Ardal | Posib Effaith Methiant | Sgôr Risg Cynhenid | | | Camau sydd eu hangen i Liniaru Risg | Cyfrifoldeb a Dyddiad | Dyddiad adnabod | Dyddiad adolygu diwethaf |
| | | | Tebygolrwydd | Effaith | Cyfanswm Risg | | | | |
| 1 | **Methiant i wario yn y flwyddyn ariannol bresennol** | Costau uchel o fewn y diwydiant adeilau. Diffyg contractwyr yn tendro am waith | 3 | 4 | 12 | Rhaglenni gwaith manwl yn dangos y gwariant cyn diwedd Mawrth 2022<br>Hawliadau misol wedi'u trefnu<br>Diweddariadau rheolaidd gyda Rheolwyr Prosiect unigol i sicrhau bod prosiectau yn unol â'r rhaglen waith<br>Nifer y prosiectau sydd ynghlwm â phrynu adeiladau<br>Monitro'r rhaglen yn rheolaidd<br>Cyfathrebu'n rheolaidd gyda'r Rheolwyr Prosiect a'r Prif Gontractwyr yn pwysleisio'r risg<br>Deialog reolaidd gyda Llywodraeth Cymru | Rheolwyr Prosiect | Hydref 2021 | Hydref 2021 |
| 2 | **Oedi yn y Rhaglen Adeiladu** | Gweler uchod | 3 | 4 | 12 | Gweler uchod | Rheolwyr Prosiect, Gweithredwr y Prosiect, Bwrdd Prosiect<br>Prif Gontractwr | Hydref 2021 | Hydref 2021 |
| 3 | **Tanwariant o fewn y prosiect** | Heb gyrraedd cyfanswm cost y prosiect | 1 | 2 | 2 | Strwythurau yn eu lle i ymgynghori â'r cymunedau ar ychwanegu gwerth at y prosiectau, hefyd mewn trafodaeth gyda Llywodraeth Cymru | Rheolwyr Prosiect, Gweithredwr y Prosiect, Bwrdd Prosiect | Hydref 2021 | Hydref 2021 |
| 4 | **Allbynnau'r Prosiect**<br>Methu â chyrraedd allbynnau'r prosiect | Cyflawni llai o ddeilliannau na ragwelwyd<br>Amserlen fer i gasglu'r wybodaeth ac i gyflawni'r targedau<br>Y prosiect ddim yn cyrraedd y nodau a'r amcanion a nodir yn y Cais | 3 | 4 | 12 | Cynllun monitro yn ei le<br>Sefydlu strwythurau i sicrhau bod y cynllun monitro yn cael ei weithredu a bod data yn cael ei gasglu ar sail chwarterol<br>Cyfarfodydd rheolaidd gyda Llywodraeth Cymru | Rheolwyr Prosiect, Gweithredwr y Prosiect, Bwrdd Prosiect | Hydref 2021 | Hydref 2021 |
| 5 | **Newidiadau i bersonél / absenoldeb staff allweddol** | Effaith niweidiol ar reolaeth y prosiect<br>Efallai na fydd materion yn cael sylw<br>Gallai'r prosiect fod ar ei hôl hi gydag allbynnau<br>Yr holl risgiau eraill a nodwyd ar y gofrestr yn uwch os oes newidiadau neu salwch hirdymor / absenoldeb personél allweddol | 4 | 4 | 16 | Sicrhau bod yr holl brosesau prosiect yn cael eu dogfennu a'u ffeilio yn effeithiol<br>Creu cyfarwyddiadau desg ar gyfer yr holl brosesau prosiect<br>Cadw'r holl brif ddogfennau prosiect ar Yriant wedi'i rannu ar gyfer mynediad rhwydd<br>Gosod system reoli ffeiliau effeithiol (copïau papur ac electronig)<br>Sicrhau bod prosesau yn cael eu trafod a'u cyfathrebu ar sail barhaus i staff y prosiect<br>Personél allweddol wedi'u hadnabod yn yr adran i wneud y gwaith petai hyn yn digwydd | Cyngor Gwynedd | Hydref 2021 | Hydref 2021 |
| 6 | **Monitro a Gwerthuso** | Ddim yn gallu cyrraedd targedau<br>Ddim yn gallu penodi ymgynghorwyr addas ar gyfer y gwaith<br>Ddim yn gallu gwneud y gwaith o fewn y gyllideb | 3 | 3 | 9 | Diweddariadau rheolaidd gyda Rheolwyr Prosiect<br>Datblygu briff cadarn ar gyfer y gwaith<br>Sicrhau bod yr ymgynghorydd ar gael a bod amserlen glir wedi'i diffinio yn y briff | Rheolwr Prosiect | Hydref 2021 | Hydref 2021 |
| | | | | | | Sicrhau bod yr holl ddogfennau cau'r prosiect a'r gofynion wedi'u cyflawni | | | |

| | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 7 | **Cau'r Prosiect** | Methiant i sicrhau bod y ddogfen cau'r prosiect yn ei lle | 1 | 4 | 4 | Sicrhau bod yna gyswllt allweddol ym mhob Awdurdod Lleol er mwyn darparu gwybodaeth yn ystod cyfnod Cau'r Prosiect ac yn ystod Archwiliad Terfynol y prosiect | Rheolwr Prosiect | Hydref 2021 | Hydref 2021 |
| 8 | **Strategaeth Gadael** | Methu cytuno ar gytundeb cyfreithiol gyda phartneriaid trydydd parti<br>Methiant i sicrhau bod yr holl ddogfennau cyfreithiol a'r dogfennau prosiect yn eu lle | 1 | 4 | 4 | Cydweithrediad gyda'r adran eiddo a'r adran gyfreithiol i sicrhau bod yr holl ddogfennau cyfreithiol yn eu lle | Rheolwr Prosiect<br>Adrannau Cyngor Gwynedd | Hydref 2021 | Hydref 2021 |
| 9 | **Cadw Dogfen** | Methiant i sicrhau bod y ddogfen cau'r prosiect yn ei lle | 1 | 4 | 4 | Sicrhau bod yr holl ddogfennau cau'r prosiect a'r gofynion wedi'u cyflawni<br>Sicrhau bod yna gyswllt allweddol ym mhob Awdurdod Lleol er mwyn darparu gwybodaeth yn ystod cyfnod Cau'r Prosiect ac yn ystod Archwiliad Terfynol y prosiect | Rheolwr Prosiect | Hydref 2021 | Hydref 2021 |
| 10 | **Sicrhau bod yr holl ddogfennau prosiect yn cael eu harchifo** | Methiant i ddod o hyd i ffeiliau'r prosiect ar ôl i'r prosiect gau.<br>Dinistrio ffeiliau cyn y dyddiad cadarnhau. | 1 | 4 | 4 | Strwythur ffeilio yn ei le.<br>Dilyn polisi cadw dogfen.<br>Archifo'r holl ddogfennau gan sicrhau bod yr holl ddogfennaeth berthnasol yn eu lle. | Rheolwr Prosiect | Hydref 2021 | Hydref 2021 |
| 11 | **Archwiliad Terfynol** | Gwariant anghymwys | 1 | 2 | 2 | Sicrhau bod yr holl wariant yn gymwys ar adeg hawlio | Rheolwr Prosiect | Hydref 2021 | Hydref 2021 |
| 12 | **Arian Cyfatebol**<br>Arian Cyfatebol ddim ar gael ar gyfer prosiectau trydydd parti | Efallai y bydd rhaid lleihau Cyfanswm Cost y Prosiect | 2 | 5 | 10 | Trafodaethau gyda phartneriaid trydydd parti yn gadarnhaol iawn. Ni chaiff llythyrau cynnig eu rhyddhau heb dystiolaeth bod arian cyfatebol yn ei le<br>Mae prosiectau Cyngor Gwynedd wedi sicrhau arian cyfatebol | Rheolwr Prosiect | Hydref 2021 | Hydref 2021 |
| 13 | **Materion tir**<br>Cytundeb caffael, prydlesu a chyfreithiol o ran tir | Methu â chyrraedd cytundebau gyda thirfeddianwyr | 2 | 4 | 8 | Trafodaethau cychwynnol cadarnhaol ac wedi cynnwys cynrychiolaeth gyfreithiol o'r dechrau. Arwystl i'w osod ar unrhyw fuddsoddiad mewn eiddo sydd dros £50,000 | Rheolwr Prosiect<br>Adran Gyfreithiol Cyngor Gwynedd | Hydref 2021 | Hydref 2021 |
| 14 | **Cytundebau Trydydd Parti** | Methu cydymffurfio ag amodau a thelerau'r grantiau | 2 | 4 | 8 | Cytundebau cyfreithiol i'w llunio gyda holl ymgeiswyr trydydd parti i'w hatodi i amodau a thelerau Llywodraeth Cymru ac arwystl cyfreithiol lle bo angen. Monitro a chyfathrebu rheolaidd gyda'r sefydliad trydydd parti | Rheolwr Prosiect | Hydref 2021 | Hydref 2021 |
| 15 | **Adnoddau Cyfreithiol** | Diffyg adnoddau gan y Tîm Cyfreithiol i roi sylw i anghenion y cytundebau cyfreithiol a'r arwystl cyfreithiol sydd eu hangen rhwng Cyngor Gwynedd ac ymgeisydd trydydd parti | 3 | 4 | 12 | Trafodaethau yn eu lle gyda Phennaeth y Gwasanaeth Cyfreithiol i ddarparu templedi a chanllawiau ac i gwmni locwm i fod ar gael i gynorthwyo | Rheolwr Prosiect | Hydref 2021 | Hydref 2021 |
| 16 | **Llif arian** | Diffyg llif arian o fewn sefydliadau trydydd parti i allu talu anfonebau prosiectau | 4 | 4 | 16 | Ar sail achos wrth achos, ac mewn cytundeb â'r Rheolwr Risg, dylid sefydlu cynllun a fydd yn sicrhau bod modd cyflawni'r prosiect gan ddiddymu'r risg i'r Cyngor | Rheolwr Prosiect | Hydref 2021 | Hydref 2021 |
| 17 | **Caniatâd Statudol** | Methiant i gwblhau pob caniatâd statudol angenrheidiol | 2 | 4 | 8 | Trafodaethau cychwynnol cadarnhaol gyda Llywodraeth Cymru ac Awdurdodau Cynllunio. Sicrhau ymglymiad a thrafodaethau o'r cychwyn | Rheolwr Prosiect, Adran Gyfreithiol Cyngor Gwynedd, Llywodraeth Cymru, Awdurdod Cynllunio (Parc Cenedlaethol Eryri a Chyngor Gwynedd) | Hydref 2021 | Hydref 2021 |